

CYNGOR CYMUNED Y FELINHELI

Cofnodion cyfarfod rithiol 13 Hydref 2020 a gynhaliwyd drwy ddefnyddio offer digidol Zoom am 7 yn yr hwyr.

PRESENNOL

Daniel Williams	Eifion Williams
Lliwen Williams-Griffith	Nerys John
Iwan Huws	Cynog Prys
Casi Roberts	Llŷr Evans
Nerys John	Iestyn Harris
Emyr Gareth	
Dafydd Huws	Cynghorydd Sir - Gareth Griffiths
	Wynne Barton - Swyddog Ariannol

1.0	GEIRIAU AGORIADOL Y CADEIRYDD AC YMDDIHEURIADAU	
	Agorwyd yn ffurfiol y cyfarfod misol gan y Cadeirydd Iwan Huws. Derbyniwyd ymddiheuriad gan Eiliw Williams.	
1.1	Cyfeiriwyd at Farwolaeth Alun Owen, ac anfonwyd cydymdeimlad y Cyngor Cymuned at Teulu Bonc Y Felinheli.	
1.2	Cynllun Cyfaill – dim wedi newid.	
1.3	<p>Jet Skis ar y Fenai - Dywedodd y Cadeirydd ei fod wedi codi'r pwnc yma oherwydd bod llawr iawn o gwyno o fewn y pentref ynglŷn â'r jet skies sydd yn cael eu cychwyn o lanfa breifat Moel y Don. Mae cychwyn o'r man yma yn rhad ag am ddim. Credir bod angen rheolaeth ar y fynedfa hon yn Moel y Don. Cyfeiriodd y Cynghorydd Sir Gareth Griffiths bod Cyfyngiadau'r coronafeirws wedi codi'r broblem. Roedd pawb yn gytûn bod angen trafodaeth ynglŷn â'r mater gyda Chyngor Cymuned Llanfairpwll. Dywedodd y Cynghorydd Cynog Prys ei fod wedi tystiolaethu digwyddiadau ar y Fenai pan oedd cychod bach y Clwb ar y Fenai ar yr un pryd. Yn ddiweddar nid yw'r Ymddiriedolaeth Harbwr wedi bod yn patrolio yn ddiweddar ac o ganlyniad mae defnydd o'r peiriannau wedi cynyddu. Cytunwyd bod angen rhoi pwysau a'r Llywodraeth Cymru I orfodi perchnogion i gael trwydded. Mae defnydd o'r peiriannau hyn yn codi peryglon i ddefnyddwyr eraill o Fenai sydd yn nofio a hwylio. Roedd y Cyngor yn gytûn bod angen ymestyn y cyfyngiad 5 knots i'r dwyrain o Plas Newydd. Ymddiriedolaeth Harbwr Caernarfon sydd yn rheoli. Mae'r Ymddiriedolaeth gyda Cyfarfod Cyhoeddus Rhithiol ar y 18 Tachwedd 2020 i ymdrin â'r pwnc.</p>	
1.4	<p>Cae Chwarae'r Ysgol - Rhoddwyd cefndir i'r mater. Cytunwyd and oedd y Cae Chwarae ddim o safon a obeithiwyd a hefyd bod y gwaith sydd wedi ei wneud yn ddiweddar heb lwyddo. Cafwyd y Gwaith yma ei wneud oherwydd bod unigolyn o'r gymuned wedi talu am y Gwaith. O ganlyniad mae clybiau cymunedol Y Felinheli yn gorfod teithio i Gaernarfon neu Fangor i ddefnyddio caeau o safon i ymarfer. Hefyd mae clybiau sydd yn ymweld yn gwrthod chwarae ar y cae.</p> <p>Y broblem yw bod cerrig ar y wyneb a bod y system draenio wedi codi tyllau. Hefyd mae'r cae yn wlyb ofnadwy.</p>	

CYNGOR CYMUNED Y FELINHELI

	Dywedodd y Cynghorydd Sir Gareth Griffiths and oedd yn ymwybodol bod y broblem wedi ail godi. Cyfeiriodd nad oedd Cyngor Gwynedd ynghlwm a'r cytundeb rhwng yr Ysgol a Watkin Jones. Yr ysgol oedd yn gyfrifol. Roedd y Gwaith diweddar wedi ei wneud gyda Chyngor Gwynedd ynghlwm er mwyn sicrhau safonau Gwaith. Penderfynwyd byddai'r mater yn cael ei roi yn nwylo'r Cynghorydd Gareth Griffiths a'r Cynghorydd Iestyn Harris i'w godi gyda Corff Llywodraethwyr yr ysgol.	
2.0	ADRODDIAD Y CYNGHORYDD SIR	
	<p>Cyfeiriodd y Cynghorydd Sir at fater o beryg ar Lwybr Cerrig yr afon yn dilyn adroddiad oddi wrth yr Ysgol Feithrin – mae'r mater yma wedi ei godi yn Adroddiad Blynyddol Llwybrau Cyhoeddus y Gymuned.</p> <p>Dywedodd y Cynghorydd Sir hefyd efallai bod modd i'r Cyngor Cymuned edrych a'r praesept y flwyddyn nesaf er mwyn edrych i ariannu torri gwair a llwyni ar y llwybrau. Dywedwyd bod hyn wedi ei benderfynu yng nghyfarfod misol mis Medi bod tri thoriad i'w wneud o hyn ymlaen.</p>	
3.0	DATGAN DIDDORDEB	
	Emyr Gareth yn datgan diddordeb ynglŷn â phrosiect Lan y Môr.	
4.0	CADARNHAU GWARIANT MIS BLAENOROL A'R ADRODDIAD ARIANNOL BLAENOROL	
4.1	Cyflwynwyd adroddiad ariannol mis Medi. Derbyniwyd hwy fel rhai cywir.	
4.2	Adroddiad Blynyddol Drafft Panel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol - Chwefror 2021 - cyflwynwyd yr adroddiad, fe'i derbyniwyd heb sylwadau.	
5.0	CADARNHAU COFNODION MIS BLAENOROL	
5.1	Cadarnhawyd Cofnodion mis Medi.	CLERC
5.2	Cyfeiriwyd at faterion yn codi gan y Cynghorydd Sir - dywedodd bod cais cynllunio'r Marina yn dal i fodoli oherwydd bod Gwaith peirianyddol ar y safle wedi ei wneud. Ni fyddai'r datblygiad yn gallu bod yn "Gated Community" oherwydd mae llwybr yr arfordir yn mynd trwy ganol y safle ac mae cytundeb wedi ei arwyddo gan y perchennog.	
5.3	JAPANESE KNOTWEED - mae lleoliad y cyfeiriwyd ato a'r rhestr y Cyngor Cymuned.	
5.4	Credir bod y person sydd yn gyfrifol am y graffiti ar y cysgodfannau wedi ei ddal. Oes bydd achos llys efallai bod modd ennill iawndal? Clerc i gysylltu â'r heddlu. Mae angen dod a safon y cysgodfannau yn ôl i'r hyn oeddynt cyn y difrod; Cynghorydd Daniel Williams a'r Cynghorydd Eifion Williams i ymdrin â hyn.	CLERC
5.5	Wal gynnal ar y ffordd i lawr i'r Marina. Dywedodd y Clerc bod y Cyngor Sir yn dal i edrych fewn i berchnogaeth y wal. Nid ydynt yn gwybod hyd yma os yw'r wal yn un cyhoeddus. Dywedodd y Cynghorydd Sir na fydd yn caniatáu i'r mater yma gael ei anghofio.	
6.0	CEISIADAU CYNLLUNIO	

CYNGOR CYMUNED Y FELINHELI

6.1	C20/0723/20/DT Maes y Môr 43 Brynffynnon, Y Felinheli LL56 4SJ – codi balconi i lawr cyntaf edrychiad blaen yr eiddo. DIM GWRTHWYNEBIAD	
	C20/0731/20/DT 11 Bryn y Môr Y Felinheli LL56 4LY – codi lolfha haul ar y balcony presennol (cynllun diwygiedig i’r un a wrthodwyd o dan gais rhif C20/0025/20/DT) – DIM GWRTHWYNEBIAD	
	C20/0761/20/DT 7 Trem y Foel Y Felinheli LL56 OZ – Estyniad deulawr yn y cefn - DIM GWRTHWYNEBIAD (Bydd y cais yma yn mynd gerbron Pwygor Cynllunio Gwynedd lle bydd y Cynghorydd Sir Gareth Griffiths yn cyflwyno ei sylwadau).	
	C20/0494/20/LL Gwêl Y Fenai (former Ferodo Site and Plas Brereton), Caernarfon, LL55 1TP Datblygu parc gwyliau a hamdden i gynnwys 208 o borthdai gwyliau; 51 o fflatiau gwyliau newydd eu hadeiladu; newid defnydd adeilad i 4 fflat gwyliau; adeiladu canolbwynt hamdden; ad-drefnu ac adnewyddu unedau diwydiannol; darpariaeth ar gyfer gwaith trin dŵr preifat; a meysydd parcio cysylltiedig, tirlunio, mynediad a ffyrdd mynediad mewnol. Cyfarfod Arbennig i drafod y cais. Gweler Atodiad 1	
7.0	PRIFFYRDD, MEINCIAU A CHYSGODFANAU	
7.1	Dywedodd y Cynghorydd Daniel Williams ei fod wedi derbyn cwyn oddi wrth Mrs Williams o Seaview Terrace ynglyn a chyflwr y ffordd. Mae’r mater yma wedi ei anfon at Briffyrdd Gwynedd. Penderfynwyd cefnogi cais Mrs Williams.	CLERC
7.2	Nid yw Mainc ger Stepiâu Cei wedi ei wneud hyd yma ond mae ear restr i’w wneud can y contractwr.	DW
8.0	LLWYBRAU A LON LAS	
8.1	Cyflwynwyd adroddiad llafar gan y Cynghorydd Nerys John. Rhoddwyd sylw i faterion peryg y llwybrau fel llwybr Afon Heulyn, llwybr Bryn y Waun i Penscoins. Brynffynnon i’r Lon Fawr; mae’r wyneb yn beryglus gyda’r llechi yn tueddu i symud dan droed defnyddiwr a bod angen canllaw gwell. Mae angen i Gyngor Gwynedd rhoi sylw i hyn gan fod pobl oedrannus yn defnyddio’r llwybr i fynd am y bws. Gobeithir cael cyfarfod rhithiol gyda swyddogion Llwybrau Cyngor Gwynedd. Mae cais wedi ei wneud gyda’r swyddog a gobeithir cael ymateb yn fuan.	
8.2	Mae pris wedi ei dderbyn oddi wrth gontractwr torri gwair ar gyfer Gwaith a’r llwybr Rowen a Snowdon Street sef £150. Derbyniwyd y pris a chytunwyd i symud ymlaen a’r gwaith. Dymuniad y Cyngor Cymuned yw gweld Llwybr Rowen fel rhan o rwydwaith Llwybrau Cyhoeddus y pentref, nid yw hyn wedi digwydd hyd yma. Dywedodd y Cynghorydd Gareth Griffiths bod y Gwaith yn cymryd misoedd er bod y perchennog wedi cytuno i hyn ddigwydd. Mae angen sicrhau bod sbwriel yn cael ei godi, mae Swyddog Llwybrau Cyngor Gwynedd wedi dod a hyn i sylw’r adain	CLERC

CYNGOR CYMUNED Y FELINHELI

	Gorfodaeth Stryd yn enwedig i'r sefyllfa a'r Snowdon Street. Mae modd i grwpiau bychan sydd am godi sbwriel ddefnyddio offer y Cyngor Cymuned. Bydd hyn yn cael ei wneud gyda'r Cyngor Cymuned yn rhoi datganiad ymwadiad a hefyd manylion a'r ymarfer da.	
9.0	MYNWENT, MAES PARCIO A SAFLE MORIA	
9.1	Cafwyd pris gan y contractwr ynglŷn â'r compost sef £60. Cytunwyd bod y pris yn rhesymol ac i'r Gwaith fynd yn ei flaen.	CLERC
9.2	Mae tystiolaeth bod car wedi cael gwrthdrawiad a'r wal sydd yn gwarchod llwybr tu ôl i dai Stryd Bangor. Mae cais am bris i'r Gwaith adfer wedi ei wneud. Hefyd roedd cwyn wedi ei dderbyn bod cerbyd wedi ei adael (abandoned) yno, ar ôl edrych ar safle DVLA gwelwyd bod y cerbyd yn un cyfreithiol.	CLERC
9.3	Mae ymweliad safle wedi bod ar safle Moria a'r argymhelliad yw dylid tynnu i ffwrdd y llechi a rhoi planhigion sy'n ffynnu yno fel grug. Dylai edrych am beron priodol i wneud y Gwaith. Y Cynghorydd Casi Roberts am wneud ymholiadau ar gyfer manylion cyswllt person lleol.	CR
10.0	PROSIECTAU	
10.1	Cae Chwarae Lan y Môr - y prosiect yn symud ymlaen. Cyfarfod wedi bod a Swyddog Cyngor Gwynedd. Bydd angen Method Statement oddi wrth y Cyflenwyr Offer I Gyngor Gwynedd. Mae contractwyr Lan y Môr yn gallu ymdrin â'r Gwaith sifil y safle. Yr offer i'w archebu. Penderfynwyd bod y Clerc yn gwahodd Amanda Murry i gyfarfod rhithiol er mwyn trafod cymryd cyfrifoldeb am y Cae Chwarae. Diolchodd y Cadeirydd i'r Cynghorydd Eiliw Williams a'r is-bwyllgor am eu gwaith.	CLERC
10.2	<p>Prosiect atal llifogydd Lan y Môr - cafwyd adroddiad diweddaraf ar y gwaith. Ar hyn o bryd mae'r ffordd ar gau, anghyfleuster ond angenrheidiol oherwydd mae angen i lefelau ar gyfer y giât fod yn berffaith.</p> <p>Cyfeiriwyd hefyd bod cyfarfod a thrigolion Lan y Môr wedi cymryd lle ac ynddo roeddynt wedi penderfynu peidio a chodi ffens ar ben y wal ond i gadw'r ffens bresennol a bod yr ardal rhwng y ffens a'r wal Newydd i gael ei wneud yn ardal planhigion gwyllt o dan oruchwyliaeth y trigolion. Roedd hyn wedi digwydd oherwydd bod Cyngor Gwynedd wedi cario allan ymgynghoriad a'r trigolion. Bydd yr ardal yma yn derbyn un toriad y flwyddyn o faint un lled.</p> <p>Disgwylir i'r contractwyr fod ar y safle hyd nes 21 o Dachwedd 2020. Bydd llechen ar gyfer yr englyn yn cael eu derbyn yr wythnos hon, a'r cerfio yn digwydd yr wythnos ganlynol. Mae blwch ar gyfer y llechen o flaen Garddfon. Oherwydd cyfyngiadau coronafeirws ni fydd agoriad swyddogol ar hyn o bryd a bydd ystyriaeth yn cael ei roi mewn amser.</p>	
11.0	NEUADD GOFFA A CHLOC	
11.1	Cafwyd adroddiad lafar gan y Cynghorydd Daniel Williams.	DW

CYNGOR CYMUNED Y FELINHELI

	<p>Dywedodd bod yr is-bwyllgor wedi bod yn cyfarfod yn rheolaidd. Mae gwaith yn mynd yn ei flaen i greu asesiadau risg a dulliau a phrosesau glanhau ar gyfer y defnyddwyr i sicrhau agor y neuadd pan fydd yn ddiogel i wneud hynny. Mae'r is bwyllgor ar hyn o bryd yn argymhell peidio agor y neuadd. Roedd y Cyngor y fodlon ar hyn a chytuno i gadw'r neuadd ar gau am y tro.</p> <p>Mae mesuriadau ar gyfer nwy a thrydan wedi ei wneud ac nid oed newid wedi bod ynddynt yn sicrhau nad oes nwy yn cael ei golli. Mae anfoneb wedi ei dderbyn sydd wedi ei amcangyfrif ar ddefnydd. Mae'r Swyddog Ariannol wedi derbyn y mesuriadau cywir er mwyn cyflwyno'r mesuriadau i'r cyflenwyr.</p> <p>Mae angen gwneud gwaith adfer ar y llawr ger yr allanfa dân, efallai gall atal dwr ddod i mewn drwy osod ffens bren. Mae hefyd angen edrych ar ddull i gael mynedfa i'r hen ystafell boiler. Y Cynghorydd Daniel Williams i gael pris gan y pensaer ynghyd a chael ymweliad i weld sut yn union gall y llawr gel ei drwsio. Bydd yn dod yn ôl ar y Cyngor er mwyn cael penderfyniad.</p>	
11.2	Mae'r ardal y Cloc angen ei chynnu ar gyfer Sul y Cofio. Gobeithir cael criw bychan at ei gilydd i wneud y gwaith bore Sadwrn. Bydd angen cadw pellter i wneud y gwaith.	
11.3	Mae Gŵyl y Felin fel arfer yn gosod Coeden Nadolig ar Lan y Môr, eleni mae'r pwyllgor wedi gofyn a byddai'r Cyngor Cymuned yn hoffi cael y goeden i'w gosod ger y Cloc. Roedd y Cyngor yn fodlon a'r hyn. Y Clerc i anfon at yr Eglwys.	CLERC
12.0	GWEFAN	
	Gwaith yn parhau i ddiweddarau'r wefan.	CLERC
	Daeth y cyfarfod i ben oddeutu 21:35	
Llofnod: :		Dyddiad:

Atodiad 1

C20/0494/20/LL

Gwêl Y Fenai (former Ferodo Site and Plas Brereton), Caernarfon, LL55 1TP

Datblygu parc gwyliau a hamdden i gynnwys 208 o borthdai gwyliau; 51 o fflatiau gwyliau newydd eu hadeiladu; newid defnydd adeilad i 4 fflat gwyliau; adeiladu canolbwynt hamdden; ad-drefnu ac adnewyddu unedau diwydiannol; darpariaeth ar gyfer gwaith trin dŵr preifat; a meysydd parcio cysylltiedig, tirlunio, mynediad a ffyrdd mynediad mewnol.

Yng nghyfarfod arbennig gan Gyngor Cymuned y Felinheli i drafod y cais cynllunio uchod penderfynwyd ar yr isod:

Roedd y Cyngor o'r farn bod angen datblygu'r ardal ac yn falch bod menter ar y gweill i wneud hynny. Byddai'r Cyngor yn hoffi'r cyfle i gael cyfarfod a'r datblygwr i geisio cael eglurhad a'r rai materion na fyddai yn gallu fod ynghlwm ag amodau cynllunio. Y Clerc hefyd i ofyn i Swyddogion Cynllunio Cyngor Gwynedd beth ellir ei gynnwys fel amod.

Er hynny mae pryder ynglŷn â'r maint y datblygiad, credir bod y datblygiad rhy fawr a'r hyn o bryd.

Bydd y datblygiad yn effeithio defnydd y Lon Las trwy'r cyfnod adeiladau ynghyd a'r defnydd o'r llwybr wedi cwblhau'r Gwaith. Gofynnir bod amod ynghlwm a'r cais bod rhaid uwchraddio'r Lon Las.

Credir dylai amod gael ei chyflwyno i sicrhau na fyddai'r un uned gwyliau yn cael ei ddefnyddio fel uned breswyl.

Nid oes asesiad ieithyddol wedi ei ddarparu ar gyfer y cynllun. Gofynnir am yr asesiad yma cyn bod unrhyw benderfyniad yn cael ei wneud ar y cais.

Byddai Cyngor Cymuned Y Felinheli yn hoffi cael cadarnhad bod gan y cwmni bolisi ar gyfer yr iaith Gymraeg. Bydd angen amod bod system o fonitro gweithredu'r bod y polisi hwn yn cael ei weithredu.

Roedd Cyngor Cymuned y Felinheli yn unfrydol na ddylai unrhyw waith ar y datblygiad gymryd lle heb fod gwaith i gael gwared â'r llygredd asbestos wedi ei wneud. Cael gwared yn gyfan gwbwl â'r asbestos fyddai yn digwydd fel y cymal cyntaf o'r gwaith ar yr holl safle.

Dylid hefyd gynnwys amod i sicrhau bod yr elfennau yn ymwneud ac ad-drefnu ac adnewyddu unedau diwydiannol yn gorfod digwydd fel rhan o'r cynllun. Ni ddylid dewis a dethol gwneud rhai elfennau o'r cynllun a pheidio gwneud rhai eraill oherwydd bod un elfen gyda photensial i wneud fwy o broffid.